SIARTER CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae'r siarter hon yn gosod ein dull tuag at sicrhau cyflawni cynhwysiant a llwyddiant ar gyfer pob un o'n cyflogeion a'n rhanddeiliaid allanol yn cynnwys cyflenwyr, cleientiaid a chyrff statudol.

Bydd Busnes Mewn Ffocws yn ceisio sicrhau:

- Ei fod yn cyflawni pob un o'r gofynion cyfreithiol sydd yn cael ei osod arno o dan Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb
- Ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd o ran sicrhau gwneud newidiadau lle y mae'n rhesymol ymarferol i'w gwneud er mwyn galluogi cyflogeion a'i holl randdeiliaid i gael mynediad i'w gwaith a'u dyletswyddau a'u cyflawni
- Bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol o'r gwerth y mae'r mudiad yn ei osod ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a gellir ymgymryd ag ymchwiliad ffurfiol pe bai tor-bolisi
- Bod ein deunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd yn cyflwyno negeseuon priodol ac wedi'u dylunio mewn modd sydd yn dangos parch tuag at bob aelod y gymdeithas
- Ei fod yn rhoi copi o'i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth i bob un o'i randdeiliaid ac yn sicrhau eu bod yn deall eu dyletswyddau ac yn cytuno i lynu atynt tra'n gweithio â'r mudiad
- Bod ganddo brosesau recriwtio, dethol, cynnydd a datblygu cynhwysol ac agored er mwyn annog cyflogeion a chleientiaid i ddatblygu a chynyddu

Byddwn yn hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy:

- Hyrwyddo, yn weithredol, gyfleoedd o safon a pherthnasau da rhwng pob sector y gymuned
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled pob gweithgarwch gweithredol
- Annog, yn weithredol, gyfranogaeth grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ym mhob un o weithgareddau amrywiol y mudiad
- Sicrhau bod ein cyflenwad gwasnaethau service, cyfathrebiadau, gweithredoedd ac adnoddau yn dangos sensitifrwydd tuag at faterion yn ymwneud ag amrywiaeth ac wedi'u haddasu fel y bo'n briodol
- Sicrhau bod gan bawb fynediad i'n gwasanaethau
- Cynnal achrediadau er mwyn cefnogi safonau cyfleoedd cyfartal

- Cynnig dull cynhwysol tuag at ddathlu llwyddiant
- Atgyfnerthu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn ein deunyddiau cyhoeddusrwydd

Fel cyflogai neu randdeiliaid y mudiad gofynnwn eich bod yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau:

- Eich bod yn ymwybodol o'ch dyletswyddau statudol chi a rhai ein mudiad o ran deddfwriaeth cydraddoldeb sydd wedi'i hamlinellu o fewn ein polisïau Cydraddoldeb (hefyd, ar gael oddi ar www.businessinfocus.co.uk)
- Y dylech chi hyrwyddo tryloywder, diddymu gwahaniaethu, gan drin pawb yn gyfartal o fewn eich gweithle eich hun
- Bod gennych chi bolisiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth effeithiol naill ai fel dogfen ar ei phen ei hun neu fel rhan o bolisi cynaladwyedd

Rydym yn monitro ac adolygu effeithiolrwydd ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Trwy gyhoeddi a gweithredu cynllun gweithredu
- Trwy adolygu a gweithredu arfer da wedi'i brofi o fewn mudiadau eraill
- Yn flynyddol ac/neu pan fo'n briodol o ganlyniad i newidiadau polisi, deddfwriaeth neu ganllawiau
- Ar y cyd â grwpiau a rhanddeiliaid priodol gan ymgynghori â nhw wrth adolygu'r polisi ac fel rhan o'i ddatblygiad parhaus

Gareth Bray
Prif Weithredwr